# BETH AM GYSYLLTU

## GWEITHGAREDDAU AR GYFER PLANT 4-7 OED

Place2Be's WYTHNOS IECHYD MEDDWL PLANT

CHWEFROR 6-12 2023

### GWEITHGAREDD 3

# CYSYLLTIADAU CYLCHLYN HWLA



**Gallech ddefnyddio hwn fel gweithgaredd ymlacio, neu ar ddiwedd y wers, i annog eich dosbarth i gysylltu.**

**DS:** Gellir gwneud y gweithgaredd hwn mewn grwpiau o 8+ disgybl, a gall
gynnwys y dosbarth cyfan os oes yna ddigon o le.

- Gofynnwch i'r disgyblion sefyll i fyny i ffurfio cylch.
- Gosodwch gylchyn hwla dros fraich un disgybl ac yna gofyn i bawb ddal dwylo. Y nod yw i'r cylchyn hwla gael ei basio o amgylch y cylch tra bod pawb yn dal i ddal dwylo.
- Wrth i'r disgyblion basio'r hwla o gwmpas, gofynnwch iddynt rannu rhywbeth am eu hunain sy'n eu cysylltu â'r dosbarth (megis 'rydym yn byw yn yr un dref'. 'rydym yn mynd i'r un ysgol', 'rydym yn gwisgo'r un wisg ysgol').
- Mae'r gêm hwn yn llawer o hwyl, ond mae angen i'r disgyblion hefyd ddefnyddio sgiliau datrys problemau a chyd-weithio i'w helpu i basio'r cylchyn hwla o amgylch y cylch. Mae angen i'r disgyblion hefyd wylio a gwrando ar ei gilydd i feddwl am y strategaeth orau ar gyfer pasio'r cylchyn hwla!
- I wneud y gweithgaredd hwn yn anoddach, gellir ychwanegu dau neu dri cylchlyn i'r cylch, neu gallech amseru pa mor hir mae'n cymryd a cheisio curo eich amser (neu amser dosbarth arall). Gallech hyd yn oed geisio ei wneud heb siarad, i weld sut allwch chi gyfathrebu heb eiriau.



**Mae'r gweithgaredd hwn wedi'i gynllunio ar gyfer plant 4-7 oed, ond fe allech ei ddefnyddio ar gyfer grwpiau oed eraill hefyd. I ymestyn y cynnwys, cyfeiriwch at syniadau eraill am weithgareddau.**